Partneriaeth Gofal Iechyd Penarth

1. Pwy yw Partneriaeth Gofal Iechyd Penarth?

Partneriaeth Gofal Iechyd Penarth fydd uniad Meddygfa Stanwell a Meddygfa Heol yr Orsaf. Bydd holl feddygon a staff eraill y ddwy feddygfa yn rhan o Bartneriaeth Gofal Iechyd Penarth.

2. Pam fod y practisau'n uno?

Dros y 12 mis diwethaf mae'r ddau bractis wedi teimlo bod recriwtio meddygon wedi bod yn anoddach nag yn y gorffennol. Ar hyn o bryd nid yw eiddo Meddygfa Heol yr Orsaf yn addas ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol modern; mae'r uniad hwn yn rhan o ymrwymiad parhaus y ddau bractis i ddarparu'r gofal iechyd o'r ansawdd uchaf i'n holl gleifion.

3. Lle fydd Partneriaeth Gofal Iechyd Penarth wedi'i leoli?

Bydd Partneriaeth Gofal Iechyd Penarth wedi'i leoli ym Meddygfa Stanwell. Bydd yr holl wasanaethau a staff sydd ar hyn o bryd yn gweithredu ym Meddygfa Heol yr Orsaf yn adleoli i Feddygfa Stanwell. Golyga hyn y bydd yr holl wasanaethau gofal iechyd ar un safle.

Mae Meddygfa Stanwell wedi'i lleoli taith o lai na 10 munud ar droed a dwy funud mewn car o Feddygfa Heol yr Orsaf ac mae maes parcio ar y safle. Mae'r Feddygfa hefyd gyferbyn ag arosfan bysiau.

4. A oes angen i mi wneud unrhyw beth?

Nac oes. Os ydych chi'n glaf ym Meddygfa Heol yr Orsaf neu Stanwell byddwch yn dod yn glaf Partneriaeth Gofal Iechyd Penarth yn awtomatig.

5. A fydd hyn yn effeithio ar unrhyw driniaeth neu feddyginiaeth rydw i'n ei dderbyn ar hyn o bryd yn y naill bractis meddygon teulu neu'r llall?

Na fydd. Unwaith y byddwch yn dod yn glaf Partneriaeth Gofal Iechyd Penarth bydd eich triniaeth a'ch meddyginiaeth yn parhau i gael ei ragnodi gan eich meddyg. Mae'r holl feddygon yn parhau gyda Phartneriaeth Gofal Iechyd Penarth felly byddwch yn dal i allu trefnu apwyntiadau gyda'ch meddyg arferol.

6. Sut fyddai'n trefnu apwyntiad?

Ni fydd unrhyw newidiadau yn digwydd yn syth, felly gallwch barhau i drefnu apwyntiadau yn yr un ffordd ag yr ydych yn ei wneud nawr. Fodd bynnag, fel rhan o'r uno rydym yn edrych i weld a oes gwelliannau y gallwn eu gwneud fel ei bod hi'n haws i gleifion drefnu apwyntiadau.

7. A fyddaf yn dal i allu gweld fy meddyg neu nyrs arferol?

Byddwch. Gallwch weld unrhyw aelod o'r tîm clinigol gan eu bod yn symud draw i Bartneriaeth Gofal Iechyd Penarth.

8. A fydd unrhyw rai o'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd yn diflannu neu'n dod i ben?

Na fydd. Bydd yr holl wasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd yn parhau felly. Os rhywbeth, byddwn yn edrych ar yr holl wasanaethau a ddarperir gennym i weld lle gallwn wneud newidiadau sy'n gwella gwasanaethau i gleifion.

9. A fydd newid yn sut y byddaf yn archebu neu'n casglu fy mhresgripsiynau?

Na fydd. Byddwch yn dal i allu archebu a chasglu presgripsiynau fel yr ydych yn ei wneud nawr.

10. A fydd newid yn sut rwy'n cael canlyniadau fy mhrofion?

Na fydd. Byddwch yn dal i allu ffonio'r feddygfa i gael canlyniadau profion.

11. A gyflwynir unrhyw wasanaethau newydd?

Fel rhan o'r newid byddwn yn edrych ar yr holl wasanaethau a ddarperir gennym i weld lle gallwn wneud newidiadau sy'n gwella gwasanaethau i gleifion.

12. A effeithir ar fy mynediad at wasanaethau eraill megis nyrsys ardal, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, gwasanaethau cymunedol?

Na. Ni effeithir ar y mynediad at y gwasanaethau hyn. Efallai byddwch, fodd bynnag, yn gweld aelodau gwahanol o'r timau gwasanaeth cymunedol yn dilyn yr uno.

13. Sut y caiff fy nghofnodion meddygol eu cadw a'u rhannu?

Caiff copïau electronig neu gyfrifiadurol o'ch cofnodion eu huno'n un system glinigol fel y gall yr holl staff meddygol eu gweld pan fydd angen. Mae gennym systemau diogelwch cyfrifiadurol ar waith i wneud yn siŵr bod y wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n saff a diogel.

14. Beth mae'r uno'n ei olygu i staff y ddau bractis?

Ni fydd ein staff yn newid. Rydym i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau llwyddiant y bartneriaeth newydd.